**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); H MacArthur (Darpar Brif Swyddog Cynorthwyol.

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| S A Smith | Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 HYDREF 2017

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2016/17

5.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Pherfformiad Corfforaethol) gyflwyno'r adroddiad, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Awdurdod.

5.2 Rhoddodd Andy Bruce o Swyddfa Archwilio Cymru drosolwg manylach o'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB), a oedd yn rhoi crynodeb ac asesiad o flwyddyn 2016/17.

5.3 Nododd yr Aelodau fod cynigion ar gyfer gwella wedi cael eu gwneud i 'gryfhau'r trefniadau rheoli asedau' drwy'r canlynol:

- C1 Rhoi diffiniad clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran penderfynu ar gyfer rheoli asedau, ac o fewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.
- C2 Cytuno ar fesurau cyffredin ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru er mwyn asesu dangosyddion allweddol yn gysylltiedig â thir ac adeiladau, fel bo modd cymharu perfformiad ac adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

5.4 O ran C1 uchod, esboniodd Mr Bruce fod canlyniad yr archwiliad o'r gwaith rheoli asedau yn un cadarnhaol iawn, ond y bydd "rhoi diffiniad clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran penderfynu ar gyfer rheoli asedau" yn gymorth i sicrhau eglurder yn y dyfodol.

5.5 Nodwyd bod cynnig C2 wedi cael ei wneud ar gyfer y tri ATA yng Nghymru er mwyn annog cydweithio ledled Cymru ar faterion megis costau cynnal a chadw a chynaliadwyedd asedau tir ac adeiladau'r ATAau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhagweld y bydd cael dangosyddion perfformiad cyffredin yn gymorth i'r tri ATA gymharu agweddau ar reoli tir ac adeiladau ac y bydd yn rhannu'r hyn a ddysgir er mwyn canfod y dulliau mwyaf effeithlon o reoli'r asedau hynny. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ystyried y cynnig hwn drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

5.6 Atgoffwyd yr aelodau gan y PSTC Simmons fod GTAGC wedi cael y wobr blatinwm yn y safon iechyd corfforaethol, sy'n ymdrin â chynaliadwyedd, materion y fflyd ac adeiladau. Mae GTAGC yn un o'r sefydliadau prin yng Nghymru sydd wedi cyrraedd y lefel blatinwm, ac ystyrir bod hyn yn bennaf oherwydd gwaith adrannau'r Fflyd a Chyfleusterau. Mae ail asesiad yn y safon iechyd corfforaethol wedi'i gynllunio yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

5.7 Cafodd yr aelodau wybod hefyd am adolygiad thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a gynhaliwyd ddechrau 2017, sef 'Dysgu gwersi er mwyn osgoi digwyddiadau sy'n peryglu diogelwch – Pa mor dda mae Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd ac ymladdwyr tân'.

5.8 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad gwella blynyddol.**

6 RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) YR UNDEB EWROPEAIDD

6.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r aelodau am gynllun gweithredu GTAGC i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd sy'n dod i rym ar 25 Mai 2018.

6.2 Nodwyd bod GTAGC wedi sefydlu tîm prosiect i oruchwylio gwaith ar y GDPR a bod trefniadau wedi'u gwneud i adrodd yn rheolaidd a monitro'r cynnydd er mwyn sicrhau bod cynllun y prosiect yn cael ei gyflawni. Fel rhan o'r cynllun, mae sesiynau ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar gyfer y staff, ynghyd â phwt i'w hatgoffa fod pawb yn gyfrifol am ddiogelu data. Gofynnwyd am ddarparu'r sesiwn ymwybyddiaeth i aelodau'r ATA, a chadarnhawyd y bydd y sesiwn honno'n cael ei threfnu.

6.3 Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn cael ei ddarparu i gyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf ac i gyfarfod yr Awdurdod llawn ym mis Medi 2018.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi**
**(i) y camau mae GTAGC yn eu cymryd i gydymffurfio â'r GDPR; a**
**(ii) bod sesiwn ymwybyddiaeth yn cael ei darparu i aelodau'r ATA.**

7 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2019/20

7.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Pherfformiad Corfforaethol) gyflwyno, er gwybodaeth, yr amserlen arfaethedig ar gyfer creu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod 2019/20 yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer creu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod 2019/20.**

8 MONITRO GWYBODAETH SY'N YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU

8.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol gyflwyno'r adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am adsefydlu'r gallu i greu adroddiadau electronig am wybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau yn dilyn gosod, ym mis Mawrth 2017, system feddalwedd newydd ar gyfer anfon allan.

8.2 Yn dilyn gosod system gorchymyn a rheoli newydd i ddisodli hen un yn 2017, mae problem yn dal i fodoli o ran cael mynediad at ddata perthnasol i ddarparu adroddiadau monitro chwarterol i'r Panel Gweithredol. Roedd swyddogion GTAGC wedi cwrdd â chyflenwyr y system yn Ionawr 2018, ac roeddent wedi pwysleisio mor bwysig yw adsefydlu'r gallu i gynhyrchu'r math yma o adroddiad. Roedd y cyflenwyr wedi canfod y byddai angen tri mis i gwblhau'r gwaith angenrheidiol i ddatrys y broblem.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad.**